



## Gwneud cwyn am y modd y cewch eich trin yn y gwaith ar ôl anaf i'r ymennydd

### Cyflwyniad

Os ydych yn teimlo bod rhywun yn gwahaniaethu yn eich erbyn neu yn eich bwlio yn y gweithle oherwydd yr anaf i'ch ymennydd, gall fod hawl gennych i wneud cwyn. Mae nifer o gamau yn gysylltiedig â gwneud cwyn am driniaeth yn y gwaith. Mae'n dibynnu i ba raddau yr ydych am barhau â'r achos, ond gellir datrys y rhan fwyaf o faterion trwy siarad yn agored â'r unigolyn yr ydych yn gwneud cwyn yn ei erbyn.

Ysgrifennwyd y daflen ffeithiau hon i'ch helpu chi i ddeall y camau sy'n gysylltiedig â gwneud cwyn am y modd y cewch eich trin yn y gwaith ar ôl anaf i'r ymennydd. Caiff gwasanaethau defnyddiol hefyd eu rhestru drwyddi draw sy'n gallu helpu i ddatrys cwyn, a gwybodaeth am ddeddfwriaethau perthnasol.

### Sail dros gwyno

Mae Deddf Cydraddoldeb (2010) yn diogelu cyflogeion anabl yn y meysydd canlynol:

- Datgelu gwybodaeth ar ffurflenni cais
- Gwneud trefniadau ar gyfer cyfweliadau
- Cwblhau profion medruswydd neu allu
- Cynigion gwaith
- Telerau cyflogaeth
- Dyrchafiad
- Cyfleoedd i drosglwyddo a hyfforddi
- Cael eich diswyddo neu golli'ch swydd
- Disgyblu a chwynion cyflogaeth

Os ydych chi'n teimlo bod rhywun wedi gwahaniaethu yn eich erbyn mewn unrhyw un o'r meysydd hyn oherwydd yr anaf i'ch ymennydd, mae gennych chi'r hawl i wneud cwyn ffurfiol o dan y Ddeddf Cydraddoldeb. I gael gwybodaeth fwy manwl, gweler taflen ffeithiau Headway, *Canllaw i Ddeddf Cydraddoldeb 2010*.

Fe'ch cynghorir i fynd ati i wneud cwyn trwy gael trafodaeth agored gyda'ch cyflogwr yn gyntaf. Efallai na fydd y cyflogwr yn deall neu'n llwyr werthfawrogi'r effaith y gall anaf i'r ymennydd ei chael ar berfformiad gwaith, felly mae'n bosibl y bydd angen i chi drafod hyn gydag ef. Efallai y bydd hefyd angen i chi egluro iddo fod angen addasiadau arnoch yn y gweithle i'ch helpu chi gyda'ch gwaith, a bod ganddo ddyletswydd gyfreithiol i ddarparu hyn o dan y Ddeddf Gydraddoldeb. I gael rhagor o wybodaeth am addasiadau awgrymedig, gweler taflen ffeithiau Headway, *Addasiadau yn y gweithle - canllaw i gyflogwyr*.



Mae'n bwysig bod yn ymwybodol **bod** gan gyflogwr hawl gyfreithiol i'ch diswyddo os na allwch barhau i wneud y gwaith, hyd yn oed ar ôl i addasiadau o'r fath gael eu gwneud.

Cofiwch, gallai'r cyflogwr wneud rhywbeth, er eich bod chi'n anghytuno ag ef neu ddim yn ei hoffi, nad yw yn ei hun yn ddigon o sail dros gwyno,. Ar y llaw arall, gall y cyflogwr wneud rhywbeth y gellir ei ystyried yn 'wahaniaethu anuniongyrchol', lle nad yw'r gwahaniaethu'n fwriadol, ond y mae, serch hynny, yn dal i gam-drin eich hawliau cyfreithiol o dan y Ddeddf Gydraddoldeb. Os nad ydych yn siŵr a yw ymddygiad cyflogwr yn gwahaniaethu, gall fod yn ddefnyddiol i chi drafod eich pryderon gyda ffrind neu gydweithiwr sy'n cydweithio'n agos â chi, neu gael cyngor gan y ffynonellau o gymorth a restrir ar ddiwedd y daflen ffeithiau hon.

## Camau gwneud cwyn

### Datrysiad lleol

Os ydych yn ystyried gwneud cwyn, dylech ddechrau trwy siarad yn uniongyrchol â'r sawl yr ydych yn cwyno amdano. Dyma'r peth gorau i geisio'i wneud yn gyntaf bron bob amser. Mae gan gyflogwyr ddyletswydd gyfreithiol i wneud addasiadau ar gyfer anghenion cyflogion anabl, felly mae'n debygol y byddant yn ceisio datrys y ddatl yn fewnol.

Efallai yr hoffech ddechrau trwy ysgrifennu manylion y pryderon sydd gennych. Gwnewch yn siŵr eich bod yn cynnwys dyddiadau ac amserau prif ddigwyddiadau fel bod gennych gofnod cywir o natur y gŵyn. Bydd hyn yn ddefnyddiol iawn os byddwch yn penderfynu mynd â'r gwyn ymhellach yn ddiweddarach.

Dylech geisio cael datrysiad lleol mor gynnar â phosibl, oherwydd gallech gael eich cwestiynu ynghylch hyn yn nes ymlaen os bydd angen i chi fynd â'ch cwyn ymhellach. Mae'n bosibl fod gan eich cyflogwr weithdrefn gwyno ar waith eisoes y gallwch chi ei ddilyn i'ch arwain trwy'r broses gwyno fewnol; gellir cael manylion y broses o'r adran AD fewnol neu mewn llawlyfr staff.

### Cymodi cynnar

Os na allwch ddatrys y gŵyn trwy ddatrysiad lleol, dylech gysylltu ag ACAS (Y Gwasanaeth Cynghori, Cymodi a Chyflafareddu) i drafod cymodi cynnar. Bydd ACAS yn ymrwymo cymodwr annibynnol, a fydd yn cyfryngu rhyngoch chi a'ch cyflogwr i geisio datrys y ddatl. Mae'r gwasanaeth hwn am ddim a gellir ei ddefnyddio am hyd at fis (ond gellir ehangu'r amser hwn os bydd angen).

Gallwch wneud cais am gymodi trwy gysylltu â llinell cymodi cynnar ACAS ar 0300 123 11 22. Neu, gallwch lenwi ffurflen gais, sydd ar wefan ACAS, gan ddefnyddio'r ddolen ganlynol: [www.acas.org.uk/earlyconciliation](http://www.acas.org.uk/earlyconciliation).



Mae ACAS wedi cynhyrchu dogfen sy'n egluro'r broses cymodi cynnar yn fanylach. Gallwch weld hon trwy glicio ar y ddolen ganlynol: [www.acas.org.uk/media/pdf/o/g/Conciliation-Explained-Acas.pdf](http://www.acas.org.uk/media/pdf/o/g/Conciliation-Explained-Acas.pdf).

Os na ellir datrys y mater trwy gymodi cynnar, bydd ACAS yn darparu tystysgrif y bydd ei hangen ar gyfer y cam nesaf o wneud cwyn.

## Tribiwnlys cyflogaeth

Os ydych chi'n credu nad yw'r ddatl wedi'i datrys o hyd, gallwch fynd â'r achos i'r llys trwy dribiwnlys cyflogaeth. Fel arfer, ni allwch wneud cais am dribiwnlys cyflogaeth hyd oni fyddwch wedi trafod cymodi cynnar gydag ACAS yn gyntaf (gweler yr adran flaenorol). Ond mae rhai eithriadau i'r rheol hon; cysylltwch â llinell gymorth ACAS am ragor o wybodaeth am yr eithriadau hyn. Bydd angen y dystysgrif a ddarparwyd gan ACAS yn ystod y cam cymodi cynnar er mwyn dechrau tribiwnlys cyflogaeth.

Mae'n rhaid gwneud cwyn ar y lefel hon o fewn **tri mis**, ond bydd oedi yn digwydd i'r cyfyngiad amser hwn yn ystod y broses cymodi cynnar.

Mae tribiwnlysoedd cyflogaeth yn weithdrefnau cyfreithiol, a bydd angen cynrychiolaeth gyfreithiol arnoch. Felly, gallech ddymuno cael cyngor cyfreithiol cyn dechrau tribiwnlys cyflogaeth. Gall Cyngor ar Bopeth neu Gyngor ar Bopeth yr Alban ddarparu cyngor cyfreithiol am ddim; caiff manylion y gwasanaethau hyn, a gwasanaethau defnyddiol eraill sy'n gallu helpu yn ystod y cam hwn eu rhestru ar ddiwedd y daflen ffeithiau hon o dan *Ffynonellau o gymorth*. Unwaith eto, gall llinell gymorth ACAS gynnig gwybodaeth am y cam hwn.

Os ydych yn byw yng Nghymru, Lloegr neu'r Alban, gallwch wneud cais am dribiwnlys ar-lein neu drwy anfon ffurflen. Os ydych yn cael anhawster defnyddio cyfrifiadur, gallwch ddefnyddio'r gwasanaeth ffôn lle mae modd cael help unigolyn i siarad drwy'r broses gais trwy ffonio 0300 123 1024. Gellir cael rhagor o wybodaeth trwy'r ddolen ganlynol: [www.gov.uk/employment-tribunals/when-you-can-claim](http://www.gov.uk/employment-tribunals/when-you-can-claim).

Os ydych yn byw yng Ngogledd Iwerddon, bydd angen i chi wneud cais trwy gysylltu â'r Tribiwnlys Diwydiannol a'r Tribiwnlys Cyflogaeth Deg. Gellir cael rhagor o wybodaeth trwy'r ddolen ganlynol: [www.nidirect.gov.uk/articles/employment-related-tribunals](http://www.nidirect.gov.uk/articles/employment-related-tribunals).

Bydd y tribiwnlys yn gyfle i'r cyflogwr roi ei fewnbwn i'r achos; os bydd y cyflogwr yn derbyn y cynnig hwn, gall yr achos fynd ymlaen i lefel gwrandawriad. Os nad yw'r cyflogwr yn derbyn y cynnig, mae'n bosibl na fydd angen i chi fynd trwy wrandawriad.

Disgwylir i chi ddod â thystiolaeth i dribiwnlys; dylai hyn gynnwys dogfennau perthnasol, megis llythyrau dyddiedig neu gydweithwyr sy'n gallu bod yn dystion. Bydd eich cyflogwr



hefyd yn bresennol yn y gwrandawriad, a bydd ef yn darparu ei dystiolaeth ei hun.

Gellir dod i benderfyniad ar ddiwedd y gwrandawriad neu gall fod angen i chi aros am gyfnod o amser nes y caiff penderfyniad ei wneud; os felly, byddwch yn cael llythyr trwy'r post yn eich hysbysu o ganlyniad y gwrandawriad.

Os oedd y tribiwnlys yn llwyddiannus, bydd nifer o ganlyniadau posibl, yn dibynnu ar y gŵyn wreiddiol. Er enghraifft, gallech ddychwelyd i'r swydd os oeddech yn credu'n wreiddiol eich bod wedi'ch diswyddo yn annheg, neu efallai y bydd hawl gennych i gael iawndal.

Gallwch wneud cais am ailystyriaeth os oedd y tribiwnlys yn aflwyddiannus. Mae'n rhaid i chi wneud hyn o fewn **dwy wythnos** i gael penderfyniad y tribiwnlys, ac mae'n rhaid i chi egluro pam y credwch y dylid ailystyried y penderfyniad hwn. Os ydych yn credu bod camgymeriad wedi'i wneud yn y tribiwnlys, gallwch gysylltu â'r Tribiwnlys Apelio Cyflogaeth. I gael rhagor o wybodaeth am hyn, ewch i [www.gov.uk/appeal-employment-appeal-tribunal/overview](http://www.gov.uk/appeal-employment-appeal-tribunal/overview).

## Ffynonellau o gymorth

Caiff ffynonellau amrywiol o gymorth a rhifau ffôn defnyddiol eu rhestru drwyddi draw yn y daflen ffeithiau hon; ond mae gwasanaethau eraill a allai hefyd fod o gymorth i chi trwy'r broses o wneud cwyn sy'n ymwneud â chyflogaeth. Gellir cael gwybodaeth a manylion cyswllt y rhain isod.

- Mae'r Gwasanaeth Cyngori, Cymodi a Chyflafareddu (ACAS) yn cynnig cyngor cyfrinachol a diduedd am ddim ar bob mater sy'n ymwneud â chyflogaeth. Mae cyfoeth o wybodaeth ar y wefan, ac mae llinell gymorth hefyd sy'n gallu cynnig cyngor cyfrinachol. Gall ACAS ymdrin ag anghydfodau ar eich rhan (gweler yr adran ar gymodi cynnar). Gellir cael rhagor o wybodaeth yn [www.acas.org.uk](http://www.acas.org.uk), neu gallwch gysylltu â'r llinell gymorth ar 0300 123 1100.
- Os ydych yn aelod o undeb llafur, gallwch gysylltu â chynrychiolydd eich undeb am gyngor a chymorth.
- Gall eich Cyngor ar Bopeth Lleol neu Gyngor ar Bopeth yr Alban ddarparu cyngor diduedd ac am ddim. Gallwch ddod o hyd i'ch Cyngor ar Bopeth agosaf trwy ddefnyddio'r offeryn chwilio yn y ddolen ganlynol: [www.citizensadvice.org.uk/about-us/how-we-provide-advice/advice/search-for-your-local-citizens-advice](http://www.citizensadvice.org.uk/about-us/how-we-provide-advice/advice/search-for-your-local-citizens-advice).  
I gael gwybodaeth ar-lein gyffredinol gan Gyngor ar Bopeth, ewch i'r wefan ganlynol: [www.citizensadvice.org.uk/work/problems-at-work/what-help-can-i-get-with-a-problem-at-work](http://www.citizensadvice.org.uk/work/problems-at-work/what-help-can-i-get-with-a-problem-at-work). Gallwch ddod o hyd i wybodaeth leol trwy ddewis



# factsheet

y wlad yr ydych yn byw ynddi o'r blwch dewis *Gall y cyngor amrywio yn dibynnu ar ble rydych chi'n byw.*

- Mae'r Gwasanaeth Cyngori a Chymorth Cydraddoldeb ar gael yng Nghymru, Lloegr a'r Alban. Gallwch ffonio ei linell gymorth ar 0808 800 0082, neu gallwch ddefnyddio'r ffurflen gysylltu ar-lein sydd ar gael yn [www.equalityadvisoryservice.com/app/ask](http://www.equalityadvisoryservice.com/app/ask).
- Mae gan Ogledd Iwerddon weithdrefn datrys dadleuon ar wahân. Gallwch gael rhagor o wybodaeth o'r Adran Gyflogaeth a Dysgu (DELNI), neu fel arall, ceir rhagor o wybodaeth yn [www.nidirect.gov.uk/articles/employment-support-information](http://www.nidirect.gov.uk/articles/employment-support-information).
- Gellir cael cymorth yng Ngogledd Iwerddon gan yr Asiantaeth Cysylltiadau Gwaith, sy'n cynnig cyngor cyfrinachol a diduedd am ddim ar bob mater sy'n ymwneud â hawliau cyflogaeth. I gael rhagor o wybodaeth, ewch i wefan yr LRA [www.lra.org.uk/](http://www.lra.org.uk/).